Adroddiad ar

Sunray Day Care Ltd

Long Barn
Waen Farm
Nercwys
Yr Wyddgrug
CH7 4EW

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn â Sunray Day Care Ltd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Sunray Day Care Ltd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lynne Northcroft |
| Person â gofal | Emily Dace, Nicola Hayday, Amy Williams |
| Nifer y lleoedd | 159 |
| Ystod oedran y plant | 0 – 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 49 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 15 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.00am – 6.00pm, dydd Llun – dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28/02/22 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mai 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/03/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn ymwneud â'r arolygiad hwn. Dylai'r lleoliad barhau i weithredu'r arfer hynod effeithiol i gefnogi datblygiad, lles a dysgu plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn gysylltiedig â sut mae ymarferwyr yn defnyddio symbyliadau i hwyluso dysgu wedi'i ysgogi gan y plentyn ac yn annog lefelau uchel o ymgysylltu ac ymglymiad, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae plant yn mynegi eu meddyliau a'u syniadau yn hyderus, gan ddangos llais cryf ac ymddiriedaeth y bydd ymarferwyr yn gwrando ac yn ymateb â diddordeb. Maent yn defnyddio cyfathrebu geiriol a dieiriau yn effeithiol i fynegi eu hunain a'u hanghenion, er enghraifft wrth bwyntio at eitemau maent eisiau chwarae â nhw. Mae bron pob un o'r plant yn symud yn gyfforddus o gwmpas yr amgylchedd ac yn gwneud penderfyniadau hyderus am ble maent eisiau chwarae, a sut. Maent yn dewis adnoddau yn bwrpasol o wahanol ardaloedd y lleoliad i ymestyn eu chwarae, er enghraifft yn dewis defnyddio tywod yn yr ardal adeiladu.

Mae plant yn rhannu eu diddordebau gydag ymarferwyr a'u gwirfodd ac yn deall bod eu syniadau'n cael eu defnyddio mewn gweithgareddau. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a saff. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ag ymarferwyr ac yn teimlo'n hyderus y bydd ymarferwyr yn ymateb yn dda i'w hanghenion, er enghraifft trwy eu hannog i gysgu pan maent wedi blino neu fwyta pan maent yn llwglyd, yn hytrach na dilyn arferion llym. Mae plant yn ffurfio cyfeillgarwch ystyrlon ac yn mwynhau chwarae ochr yn ochr â phlant eraill. Maent yn setlo'n eithriadol o dda wedi iddynt gyrraedd, ac mae'r rhai sydd angen sicrwydd ychwanegol yn fodlon troi at ymarferwyr cyfarwydd, gan ddangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchoedd.

Mae bron pob un o'r plant yn dilyn yr arferion dyddiol sydd wedi eu gwreiddio yn hyderus. Maent yn dangos annibyniaeth trwy newid eu hesgidiau ar eu pennau eu hunain cyn mynd y tu allan. Yn ychwanegol, maent yn gyson yn eistedd gyda'i gilydd yn brydlon ar ddechrau amser cylch, gan ddangos parodrwydd ac ymgysylltiad. Mae bron pob un o'r plant yn ymgysylltu'n eithriadol o dda gydag ymarferwyr a'u cyfoedion ac yn cael ymdeimlad diffuant o ddealltwriaeth ac empathi yn eu cyfnewidiadau o ddydd i ddydd. Mae'r bond cymdeithasol cryf hwn yn arwyddocaol wrth gefnogi eu datblygiad lleferydd ac iaith.

Mae plant yn mwynhau ochr yn ochr â phlant eraill ac yn rhannu adnoddau a gofod yn eithriadol o dda am eu hoedrannau a'u cyfnodau datblygu, er enghraifft wrth gymryd eu tro i lenwi bwcedi â thywod i adeiladu cestyll tywod. Mae plant yn eistedd yn awchus gydag ymarferwyr a'u cyfoedion yn ystod amser byrbryd ac amser cinio, gan rannu eu profiadau a'u syniadau yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos moesau da, gan ddweud "os gwelwch yn dda" a "diolch" ar adegau priodol.

Mae plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau ac yn amlwg yn mwynhau eu chwarae. Maent yn archwilio adnoddau â chwilfrydedd ac yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain, fel defnyddio chwyddwydr i chwilio am eitemau yn y tywod neu nodi'r lleoedd gorau i ddod o hyd i chwilod yn ystod helfa chwilod

yn yr awyr agored. Mae bron pob un o'r plant yn cynnal ffocws rhagorol yn ystod gweithgareddau wedi eu dewis yn rhydd a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion, fel ymuno'n hyderus â chaneuon a rhigymau ac eistedd wrth fwrdd yn canolbwyntio'n astud wrth liwio'u lluniau.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod eang o deganau ac adnoddau sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad yn effeithiol. Maent yn datblygu ystod eang o fedrau wrth ymgymryd â chyfleoedd a phrofiadau a ddarperir ar eu cyfer. Er enghraifft, maent yn dringo ac yn balansio yn ystod chwarae yn yr awyr agored ac yn defnyddio'u medrau motor manwl i greu pryfed genwair o faint gwahanol â thoes. Mae plant yn cymryd rhan mewn profiadau pwrpasol sy'n eu helpu i fagu annibyniaeth o oedran cynnar. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ymarferwyr sy'n eu cynorthwyo wrth fwydo'u hunain a cheisio gwneud tasgau bob dydd, fel gwisgo'u cotiau a'u hesgidiau eu hunain.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd rhagorol o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn gwneud cynnydd cryf iawn yn datblygu eu medrau cyfathrebu. Maent yn sgwrsio'n naturiol â'i gilydd, gan drafod cynnyrch yn y siop ac enwi deinosoriaid amrywiol yn gywir. Mae bron pob un ohonynt yn ymateb yn hyderus wrth siarad ag ymwelwyr ac yn mwynhau siarad am eu gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu geirfa'n dda ac mae ychydig ohonynt yn defnyddio termau penodol i ddisgrifio'u gweithgareddau, fel esbonio 'pwyso a throelli' teclyn gwasgu lemwn a disgrifio bod blas yn 'sur' wrth wneud sudd lemwn ffres. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau storïau sy'n cael eu darllen gan ymarferwyr ac yn gwrando'n astud am gyfnodau amser cynaledig. Mae llawer o blant yn edrych ar lyfrau yn annibynnol gan droi'r tudalennau yn eu trefn a siarad am y darluniau gyda ffrindiau. Maent yn mynd â doliau i'r gornel lyfrau i ddarllen storïau iddynt. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau creu marciau yn llwyddiannus, yn creu cardiau cyfarch a labelu eu lluniau arsylwadol. Maent yn archwilio creu marciau rhydd â sialciau trwchus a phapur sidan, gan ofalu i beidio â rhwygo'r papur. Mae lleiafrif o blant yn adnabod llythrennau o'u henwau, ac mae ychydig ohonynt yn llwyddo i ysgrifennu eu henwau'n gywir. Mae bron pob un ohonynt yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg ac yn ymuno ag ystod eang o ganeuon a rhigymau yn frwdfrydig. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol yn ystod amser gyda'i gilydd wrth drafod pwy sydd yn y feithrinfa ar y diwrnod hwnnw, ac mae lleiafrif ohonynt yn adrodd dyddiau'r wythnos a misoedd y flwyddyn yn hyderus.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd cryf yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir yn eu chwarae ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, wrth chwilio am ffrindiau'r Gruffalo yn

yr ardal awyr agored, maent yn defnyddio iaith leoliadol yn gywir i ddisgrifio ble maent wedi dod o hyd i'r teganau, er enghraifft 'ar ben y gadair' a 'nesaf at yr hadau'. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif i ddeg yn hyderus ac mae ychydig ohonynt yn cyfrif y tu hwnt i hyn, er enghraifft wrth gyfrif faint o dyllau sydd mewn siapiau plastig a pharu'r rhif hwnnw i rifolion ar gerdyn. Mae bron pob un ohonynt yn ymuno â'u ffrindiau adeg cofrestru ac yn mwynhau trafod mis a diwrnod yr wythnos.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau digidol yn bwrpasol, fel rhaglennu teganau digidol yn hyderus i ddilyn trac maent yn ei adeiladu â blociau. Mae llawer ohonynt yn gweithio chwaraeydd cerddoriaeth i ddod o hyd i ganeuon a dawnsio iddynt tra bod plant eraill yn defnyddio offerynnau taro i guro rhythm. Maent yn trin teganau electronig yn y gornel gartref yn dda, gan ddatblygu dealltwriaeth gref o sut mae technoleg ddigidol yn effeithio ar eu bywydau. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ystod eang o offer digidol â hyder a medrusrwydd ac yn gwneud cynnydd cryf yn yr agwedd hon ar eu dysgu.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn eithriadol o dda. Maent yn defnyddio ystod o offer yn fedrus i wella'u cydsymud a'u balans, fel mynd i fyny'r wal ddringo a balansio ar gwrs ymosod. Maent yn datblygu eu medrau motor manwl yn llwyddiannus trwy ddefnyddio tongiau a gefeiliau neu wasgu pipedi i reoli faint o ddŵr maent yn ei ychwanegu at eu paentiau cartref. Mae bron pob un o'r plant yn paratoi eu bwyd eu hunain, yn plicio'u bananas eu hunain, yn taenu caws ar graceri ac yn tywallt eu diodydd eu hunain. Mae bron pob un ohonynt yn dechrau gwisgo'u dillad chwarae yn yr awyr agored eu hunain, ac mae llawer ohonynt yn gwisgo welingtons a chotiau yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ystyried sut i ddatrys problemau ac yn dyfalbarhau â thasgau yn dda. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i agor a chau tapiau, ac yn cludo dŵr mewn caniau dyfrio mawr i lenwi cafn dŵr. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn greadigol trwy gelf, cerddoriaeth a dawns. Maent yn creu eu paentiau eu hunain trwy ratio sialciau â gratiwr bach a'u cymysgu â dŵr, ac maent yn defnyddio'r paentiau hyn i greu lluniau dychmygus.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae ymarferwyr yn rhoi lles plant yn ganolog i'r gofal maent yn ei ddarparu. Maent yn dangos gwybodaeth gref am ddiogelu ac yn deall eu cyfrifoldebau wrth gadw plant yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gyson i gynnal diogelwch plant. Mae proses effeithiol ar waith i sicrhau bod gofynion penodol pob plentyn yn cael eu cydnabod ac yr eir i'r afael â nhw. Caiff y wybodaeth hon ei harddangos yn glir gan alluogi pob ymarferwr i fynd ati'n hawdd, a'i deall. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd i sicrhau eu bod nhw a'r plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Maent yn cynnal hyfforddiant cymorth cyntaf cyfoes, sy'n eu galluogi i reoli damweiniau ac anafiadau yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn cofnodi digwyddiadau yn gywir

ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda rhieni. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn sicrhau eu bod bob amser yn goruchwylio plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn eithriadol o dda, gan sicrhau bod plant yn cael gofal o safon uchel. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn bodloni gofynion diogelu, ac nid oes unrhyw feysydd pryder.

Mae ymarferwyr yn mynd ati i gynorthwyo ac annog plant i fyw bywyd iach. Maent yn cynnig byrbrydau a phrydau bwyd maethlon, fel grawnfwydydd, ac yn gweini llaeth neu ddŵr. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol wrth newid clytiau ac yn hyrwyddo trefn briodol o ran golchi dwylo trwy gydol y dydd i gynnal hylendid da. Maent yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn effeithiol gan sicrhau bod plant yn treulio amser yn yr awyr agored yn aml trwy greu profiadau difyr a deniadol. Er enghraifft, maent yn defnyddio pob un o'r ardaloedd yn yr awyr agored i ddarparu ystod eang o gyfleoedd, yn cynnwys reidio beiciau a threiciau, archwilio'r ardal ysgol goedwig a ddatblygwyd yn ddiweddar, a chymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn y twnnel polythen cyffrous.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol ac yn gyson yn rheoli rhyngweithio yn effeithiol. Maent yn cyfathrebu'n gadarnhaol â phlant ac yn mynd ati i gefnogi eu datblygiad dysgu a medrau mewn ffyrdd hwyliog a chymdeithasol. Mae ymarferwyr yn cynnal cyfathrebu parhaus, gan gynnig sylwebaethau ar y pryd ar chwarae plant a gofyn cwestiynau pwrpasol i ymestyn dysgu. Maent yn hyrwyddo ymddygiad a moesau da yn gyson ac yn canmol yn aml yn Gymraeg a Saesneg, gan helpu plant i deimlo'n falch o'u cyflawniadau. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad sy'n briodol i oedran ac yn modelu ymddygiadau disgwyliedig yn bwyllog ac yn gyson.

Mae gofal a datblygiad plant yn gyson gryf ar draws y lleoliad. Mae ymarferwyr yn ymroddgar a gwybodus, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn eithriadol o dda. Mae arweinwyr ystafelloedd cryf yn gosod disgwyliadau clir, yn dirprwyo cyfrifoldebau yn briodol, ac yn modelu arfer o safon uchel ar gyfer ymarferwyr. Mae eu harweinyddiaeth yn golygu bod ystafelloedd wedi eu trefnu'n dda ac yn rhedeg yn esmwyth. Mae hyn yn gryfder sylweddol yn y lleoliad.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae dulliau addysgu arbenigol ymarferwyr yn ennyn diddordeb plant yn eu dysgu ac yn eu cymell i gymryd rhan yn llawn yn eu gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant a brwdfrydedd i ddarparu amgylchedd dysgu hynod ddifyr. Mae ymarferwyr yn ystyried diddordebau plant yn ofalus wrth gynllunio dysgu ac yn cynnig adnoddau cyffrous i archwilio. Er enghraifft, maent yn rhoi amrywiaeth o ffrwythau, llysiau a pherlysiau anghyfarwydd i blant eu harchwilio â phob un o'u synhwyrau. Mae hyn yn galluogi plant i fanteisio ar ddarpariaeth sy'n adeiladu ar eu

gwybodaeth bresennol ac yn ymestyn eu dysgu yn dda. O ganlyniad, mae plant yn elwa ar yr ystod hynod effeithiol o weithgareddau ac yn ymgysylltu â'u dysgu yn frwdfrydig.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith. Er enghraifft, i ymateb i frwdfrydedd y plant, fe wnaethant droi cuddfan ddarllen yn ogof Gruffalo sy'n dal eu dychymyg. Mae plant yn defnyddio'r adnodd hwn yn awchus ac yn rhannu llyfrau â'u ffrindiau yn frwdfrydig, yn troi'r tudalennau yn olynol ac yn trafod y lluniau. Mae ymarferwyr yn sgwrsio â phlant yn fedrus. Maent yn gofyn cwestiynau ystyriol yn barhaus i wneud i blant feddwl ac ehangu eu dealltwriaeth. Maent yn modelu iaith yn effeithiol, gan ehangu geirfa plant. Maent yn eu hannog i ddisgrifio'u hamgylchedd wrth iddynt chwarae, er enghraifft cyffwrdd ac arogli wrth gymysgu blawd corn a choco gyda dŵr. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau llafaredd Cymraeg plant yn effeithiol trwy ganu caneuon a rhigymau yn rheolaidd, ac maent yn aml yn siarad yn ddwyieithog â phlant, yn enwedig yn ystod eu harferion dyddiol. Maent yn annog plant i ymateb yn Gymraeg a datblygu eu geirfa yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau i gefnogi datblygiad mathemategol plant yn llwyddiannus. Wrth chwarae ochr yn ochr â phlant, maent yn eu hannog i gymharu hyd coesynnau blodau a'u cofnodi ar siart. Maent yn datblygu geirfa fathemategol plant yn dda, er enghraifft, trwy arbrofi â chynhwysedd wrth iddynt dywallt dŵr. Maent yn datblygu medrau mathemategol plant ymhellach trwy eu hannog i ymarfer gartref, trwy roi benthyg adnoddau mathemategol defnyddiol yn rheolaidd i rieni a gofalwyr.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau gwerthfawr ar gyfer plant i ddatblygu a chryfhau eu cyhyrau craidd a gwella'u balans a'u hystwythder. Maent yn annog plant yn ofalus i fentro'n ofalus wrth iddynt chwarae. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd difyr i blant ddatblygu eu medrau creadigol. Mae plant yn elwa ar hyfforddwr chwaraeon gwadd ac yn mwynhau datblygu gemau a medrau gymnasteg.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'u harsylwadau o gyflawniadau plant i gofnodi eu cynnydd a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn eithriadol o dda. Maent yn dadansoddi pob arsylwad a wneir ac yn nodi sut byddant yn ymestyn dysgu pob plentyn i gyflawni'r camau nesaf. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon ochr yn ochr â diddordebau unigol plant i gynllunio mwy o brofiadau a chyfleoedd ar gyfer dysgu yn hynod effeithiol. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol i gefnogi dysgu plant, ond maent hefyd yn gwbl ymwybodol o ba bryd i gamu'n ôl ac arsylwi er mwyn caniatáu amser i blant archwilio a darganfod drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cyfoethogi profiadau plant trwy wahodd ymwelwyr i'r lleoliad. Fe wnaethant baratoi'r plant ar gyfer ymweliad gan awdur a'i chi trwy ddarllen llyfrau amdanynt. Ymestynnodd hyn werthfawrogiad y plant o lyfrau a'u haddysgu am

bwysigrwydd gofalu am anifeiliaid a phethau byw eraill. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus iawn. Maent yn annog plant i ddangos ystyriaeth am bobl eraill trwy rannu eu hadnoddau chwarae ac ymuno â chwarae ei gilydd. Maent yn ymyrryd yn sensitif ar yr adegau prin y mae plant yn anghytuno â'i gilydd, gan esbonio pwysigrwydd rhannu. O ganlyniad, mae plant yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd gonestrwydd, tegwch a pharch. Mae ymarferwyr yn cynnwys plant mewn gwerthfawrogi'r byd naturiol trwy archwilio'r ardal awyr agored ym mhob tywydd a mwynhau teimlo glaw ar eu hwynebau. Maent yn sicrhau bod plant yn deall am bwysigrwydd dyfrio planhigion ac maent yn rhyfeddu at y modd y mae planhigion yn newid wrth iddynt dyfu. Maent yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o ddiwylliannau eraill trwy ddathlu diwrnodau arbennig yng nghalendrau gwledydd eraill, a thrwy sicrhau bod adnoddau fel gwisg a bwydydd traddodiadol o wledydd eraill ar gael yn barhaus. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant ymweld â phreswylwyr cartref nyrsio lleol sy'n datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol.

## Yr amgylchedd: Rhagorol

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu darparu amgylchedd diogel a saff lle gall plant chwarae a dysgu. Maent yn cynnal y lleoliad i safon eithriadol o lân ac yn gweithredu arferion rhagorol ar gyfer rheoli heintiau sy'n lleihau risgiau i iechyd a diogelwch plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod hylif diheintio ar gael yn barod mewn ystafelloedd er mwyn gallu glanhau teganau, pan mae angen. Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg manwl ac yn eu hadolygu, eu diweddaru a'u rhannu'n rheolaidd fel bod pob un o'r ymarferwyr yn parhau i fod yn wybodus am unrhyw newidiadau. Mae ymarferwyr yn gweithredu arferion diogelwch llym yn gyson. Maent yn cadw pob un o'r giatiau wedi eu cloi ac yn defnyddio giatiau diogelwch mewnol yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y fynedfa a'r ardaloedd awyr agored yn parhau'n ddiogel trwy ffensys priodol a mynedfeydd wedi eu cloi sy'n atal mynediad anawdurdodedig. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofrestrau ar gyfer plant a staff i sicrhau eu bod yn gwybod ble mae pawb. Maent yn cyfarch ymwelwyr yn brydlon ac yn sicrhau eu bod yn mewngofnodi, gan gynnal cofnod clir o bwy sydd yn yr adeilad.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu amgylchedd ysgogol a deniadol sy'n mynd ati i ysbrydoli plant i ymgysylltu'n frwdfrydig â'u datblygiad. Maent yn trefnu'r amgylchedd yn eithriadol o dda ac yn ei ddylunio â mannau sy'n addas ar gyfer plant drwyddo. Maent yn addurno pob ardal mewn lliwiau niwtral i hyrwyddo awyrgylch cynnes a chroesawgar. Mae arddangosfeydd deniadol o waith plant a ffotograffau yn cryfhau ymdeimlad plant o berthyn. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd yn effeithiol i ddarparu cyfleoedd a phrofiadau amrywiol ar gyfer plant o bob oedran. Maent yn creu ardaloedd tawel lle gall plant ymlacio neu wrando ar storïau, ochr yn ochr â mannau sy'n annog creadigrwydd, gweithgarwch a chwilfrydedd. Mae'r ardaloedd cyffrous yn yr awyr agored yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog i blant ac yn eu helpu i ddatblygu ystod eang o fedrau

a gwybodaeth am y byd o'u cwmpas trwy wisgo i fyny mewn gwisgoedd traddodiadol o bob cwr o'r byd. Mae arweinwyr yn dylunio ac yn datblygu pob un o'r mannau yn yr awyr agored i fod yn ysbrydoledig ac yn hwyl, ac mae plant yn dangos cyffro ac awydd clir i'w harchwilio.

Caiff mannau eu dylunio'n greadigol fel bod plant o bob oedran yn gallu cael mynediad atynt yn annibynnol a gwneud dewisiadau am eu chwarae. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynnal cydbwysedd cryf rhwng diogelwch a chyfleoedd i blant fentro'n ofalus mewn ffordd sy'n briodol i'w cyfnod datblygu, er enghraifft balansio a dringo ar offer yn yr awyr agored neu ddefnyddio morthwylion a hoelion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o ardaloedd yr amgylchedd yn cael eu defnyddio'n effeithiol a bod chwarae yn yr awyr agored ar gael ym mhob tywydd.

Mae'r amgylchedd yn cynnig ystod eang o adnoddau ac offer o safon uchel. Mae ymarferwyr yn dylunio pob ardal ddysgu yn ystyriol, fel ei bod yn gwahodd ac ysbrydoli plant i ddilyn eu diddordebau. Maent yn creu corneli cartref gan ddefnyddio eitemau dilys ac yn datblygu ardaloedd ymchwilio sy'n cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau synhwyraidd, fel papur wedi'i rwygo'n fân a gwair, i ffurfio tirweddau. Mae ymarferwyr yn creu ardaloedd dysgu cyffrous sy'n tanio chwilfrydedd plant ac yn defnyddio ystod eang o ddeunyddiau naturiol i wella'r amgylchedd a chreu mannau lle mae plant eisiau chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn darparu offer gwallt a harddwch go iawn a sosbenni a phadelli yn y corneli cartref amrywiol a'r gegin fwd. Maent yn cyflenwi adnoddau priodol sy'n annog plant i fod yn greadigol wrth iddynt beintio a chreu cerddoriaeth. At ei gilydd, mae ymarferwyr yn dylunio amgylchedd ysbrydoledig, creadigol a chyffrous sy'n hyrwyddo dysgu a datblygiad plant yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd a phrofiadau ystyrlon ar eu cyfer.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae gan arweinwyr weledigaeth ac ethos clir a disgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, ymarferwyr a phlant. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir ac yn darparu darlun gwir a chynhwysfawr o'r lleoliad a'i ethos. Mae hyn yn arwain at waith tîm a chydweithio rhagorol ymhlith ymarferwyr, gyda ffocws cryf ar les, ac yn creu amgylchedd diogel a chartrefol y mae plant ac oedolion yn ffynnu ynddo. Mae arweinwyr wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau bod ymarferwyr yn elwa ar ddysgu proffesiynol parhaus ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ymarferwyr fyfyrio ar eu harfer trwy arfarnu a goruchwylio effeithiol. Mae hyfforddiant diweddar wedi gwella gallu ymarferwyr i arsylwi plant i nodi eu diddordebau, ac mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgysylltu ac ymgolli'n llawn yn eu gweithgareddau. Mae gan bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau arwain personol. O ganlyniad i arweinyddiaeth gref ar y cyd, ceir dull cyson gan bob un o'r staff a chynhelir rhyngweithio proffesiynol o ansawdd uchel gyda phlant trwy gydol yr amser. Ceir pwyslais ar hyrwyddo diwylliant diogelu a diogelwch yn y

lleoliad. Mae arweinwyr yn adolygu gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn gweithredu'n gyflym i wneud unrhyw welliannau a nodwyd. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel wrth benodi ymarferwyr newydd.

Mae arweinwyr yn rhoi gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant hynod effeithiol ar waith sy'n mynd ati i ystyried safbwyntiau pob un o'r rhanddeiliaid. Yn rhan o'r broses hon, maent yn ymgynghori â rhieni, plant a staff i gasglu eu barn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr yn myfyrio ar beth sy'n gweithio'n dda, beth gellid ei wella, ac yn rhannu'r wybodaeth hon gydag ymarferwyr yn bwrpasol. Er enghraifft, mae ffocws diweddar ar ddatblygu'r amgylchedd yn yr awyr agored wedi arwain at lawer o fannau symbylol ac ysbrydoledig.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau effeithiol sydd o fudd i blant. Mae gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo plant rhwng ystafelloedd yn y feithrinfa ac yn y cyfnod pontio o'r lleoliad i'r ysgol yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd gyda'r nos ar gyfer rhieni i drafod sut gallant gefnogi cyfnod pontio eu plentyn i'r ysgol. O ganlyniad, mae plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn hunanhyderus pan mae'n amser symud ymlaen. Mae arweinwyr yn agos-atynt ac mae ganddynt bartneriaethau cryf â rhieni, gan eu hysbysu'n dda am ddiwrnod eu plentyn trwy blatfform electronig. Caiff rhieni gyfleoedd i rannu diddordebau eu plant o gartref. Mae hyn yn helpu ymarferwyr i gasglu gwybodaeth werthfawr o amgylch dysgu plant y maent yn ei defnyddio i lywio'u cynlluniau. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i deuluoedd ymuno â gweithgareddau fel "noson geirw" pan mae teuluoedd yn mwynhau gweld y ceirw sy'n ymweld. Mae arweinwyr yn rheoli cyllidebau a grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn bwrpasol. Maent yn dyrannu cyllid i hyrwyddo profiadau dilys ar gyfer plant, fel prynu dodrefn ac offer awyr agored o ansawdd da i greu 'ardal goedwig' sy'n cynnwys adnoddau da.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/06/2026